**Julie James AS/MS**
**Y Gweinidog Newid Hinsawdd**
**Minister for Climate Change**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Llŷr Gruffydd AS
Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith
Senedd Cymru
Bae Caerdydd,
Caerdydd,
CF99 1SN

21 Ebrill 2023

Annwyl Llŷr,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 31 Mawrth. Isod mae fy ymatebion i'ch cwestiynau yn dilyn y sesiwn dystiolaeth ar 29 Mawrth 2023, yng nghyfarfod y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Seilwaith ynglŷn â Bil yr Amgylchedd (Ansawdd Aer a Seinweddau) (Cymru).

**Targedau Ansawdd Aer**

**1. Pam ydych chi wedi dewis peidio â bod yn fwy rhagnodol ynglŷn â'r wybodaeth y mae'n rhaid i Weinidogion Cymru roi sylw iddi cyn gwneud rheoliadau i osod targedau ansawdd aer (i adlewyrchu'r cynnig yn y Papur Gwyn)?**

Mae tystiolaeth ynglŷn ag effeithiau llygryddion aer yn dod i'r amlwg yn barhaus. Felly, mae'n bwysig gallu ymateb i amgylchiadau wrth iddynt newid. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i lunio polisïau ar sail tystiolaeth, a bydd yn ystyried canllawiau Sefydliad Iechyd y Byd ar ansawdd aer wrth ddatblygu cynigion ar gyfer targedau, ochr yn ochr â chyngor arbenigol annibynnol, tystiolaeth a dadansoddiadau o amrediad o ffactorau. Mae hyn yn cynnwys manteision lleihau lefelau o lygryddion i iechyd, ac ymarferoldeb a hyfywedd economaidd cymryd camau gwahanol a allai gyflawni targedau posibl.

Bydd y ffactorau hyn yn cael eu hystyried ochr yn ochr â gofynion cynhwysfawr asesiadau effaith rheoleiddiol cysylltiedig, cyn ymgynghori ar dargedau ansawdd aer penodol a phennu'r targedau hynny mewn rheoliadau.

**2. Pa ystyriaeth a roesoch i ddefnyddio'r Bil i roi'r Panel Cynghori ar Aer Glân ar sail statudol?**

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Julie.James@llyw.cymru
Correspondence.Julie.James@gov.Wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Mae'r Bil yn darparu, cyn gwneud rheoliadau i bennu targedau tymor hir neu darged ar gyfer $PM_{2.5}$, fod rhaid i Weinidogion Cymru gyntaf geisio cyngor gan unigolion sydd, yn eu barn nhw, yn annibynnol ac yn meddu ar yr arbenigedd perthnasol. Hefyd rhaid iddynt ystyried gwybodaeth wyddonol benodol am lygredd aer.

Mae cyngor arbenigol annibynnol a gwybodaeth wyddonol ar gael i Lywodraeth Cymru o nifer o ffynonellau. Rydym wedi sefydlu Panel Cynghori ar Ansawdd Aer, sy'n darparu cyngor ac argymhellion ar y broses ar gyfer pennu targedau a thargedau penodol â blaenoriaeth ar gyfer ansawdd aer yng Nghymru. Fodd bynnag, mae'n bosibl hefyd y bydd angen i Weinidogion Cymru geisio cyngor pellach gan arbenigwyr unigol neu grwpiau ehangach o arbenigwyr, yn dibynnu ar y maes gwyddoniaeth neu'r pwnc. Er enghraifft, mae cyngor annibynnol ac arbenigol pellach yn cael ei ddarparu i Lywodraeth Cymru gan grwpiau cynghori'r DU, y Grŵp Arbenigol ar Ansawdd Aer a'r Pwyllgor ar Effeithiau Meddygol Llygredd Aer. Mae hyn yn ychwanegol at gyngor a ddarperir gan sefydliadau sector cyhoeddus fel Iechyd Cyhoeddus Cymru a Cyfoeth Naturiol Cymru.

Mae gallu Gweinidogion Cymru i ddewis ffynhonnell y cyngor yn rhoi'r hyblygrwydd sydd ei angen i gael cyngor arbenigol oddi wrth y ffynonellau mwyaf priodol, yn dibynnu ar y mater o dan sylw. Ni fyddai rhoi'r Panel ar sail statudol yn newid nac yn ychwanegu at y gofyniad i Weinidogion Cymru geisio cyngor. Mae'r dyletswyddau hyn yn mynd ymhellach na gofynion Gweinidogion Cymru o dan y fframwaith deddfwriaethol presennol, ac maent yn sicrhau bod Gweinidogion yn atebol nawr ac yn y dyfodol.

**3. Nid oes gofyniad ar Weinidogion Cymru i ymgynghori â sefydliadau perthnasol/y cyhoedd cyn gwneud rheoliadau i osod targedau ansawdd aer. Pam felly?**

Mae'r Bil yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru geisio cyngor gan unigolion sydd, yn eu barn nhw, yn annibynnol ac yn meddu ar yr arbenigedd perthnasol cyn gwneud rheoliadau o dan adrannau 1 a 2 o'r Bil. Yn ogystal, mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i ymgynghori cyn cyflwyno deddfwriaeth. Dylai ymgynghori cyhoeddus llawn ac agored ddarparu'r cyfle i bob rhanddeiliad fynegi ei farn, gan gynnwys sefydliadau a'r cyhoedd.

**4. Pam ydych chi wedi dewis ymestyn yr amserlen ar gyfer gwneud rheoliadau o flwyddyn?**

Hoffem weld targedau uchelgeisiol, credadwy sy'n cael eu cefnogi gan y gymdeithas. Felly mae'n hanfodol bod arbenigwyr, Aelodau o'r Senedd a'r cyhoedd yn cael y cyfle i wneud sylwadau a mewnbynnu i'r broses hon. Bydd hyn yn sicrhau bod y dystiolaeth berthnasol yn cael ei chasglu mewn modd priodol a'i bod yn cael ei phrofi ac yn destun craffu briodol.

Mae'n hanfodol bod modd cyflawni'r targedau a bennir o dan y Bil. Mae asesu ymarferoldeb a chost yn agwedd hanfodol ar bennu targedau i sicrhau y gellir eu cyflawni, eu bod yn lleihau anghydraddoldebau, eu bod yn fforddiadwy a'u bod yn cyd-fynd â pholisïau eraill y Llywodraeth. Mae'r Bil hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru ystyried gwybodaeth wyddonol wrth bennu targedau cenedlaethol ar gyfer ansawdd aer. Bydd hyn yn cynnwys ystyried canllawiau Sefydliad Iechyd y Byd ar ansawdd aer. Nid ydym yn gwybod ar hyn o bryd a fydd yn bosibl bodloni canllawiau Sefydliad Iechyd y Byd ym mhob man o Gymru, na sut ac erbyn pryd y byddai modd gwneud hyn, os yw'n bosibl.

Rydym wedi ymrwymo i ddilyn proses sy'n seiliedig ar dystiolaeth i bennu targedau uchelgeisiol ac effeithiol yng Nghymru. Fodd bynnag, mae angen inni ddeall terfynau'r hyn sy'n bosibl a chyfyngiadau cysylltiedig, ar sail gwyddoniaeth gadarn a dadansoddiadau economaidd-gymdeithasol. Mae'r amser hwn yn hanfodol am fod nifer sylweddol o gamau mae angen eu cymryd. Mae hyn yn cynnwys pennu cwmpas y targedau, dadansoddi opsiynau uchelgeisiol, fforddiadwy ac ymarferol ar gyfer targedau, ymgynghori ac

ymgysylltu priodol, a drafftiau llawn o'r targedau a manylion ynghylch y ffordd mae'n rhaid iddynt gael eu hasesu. I roi cyd-destun, yn Lloegr cymerodd Llywodraeth y DU dros dair blynedd i ddatblygu rheoliadau ar gyfer targedau $PM_{2.5}$.

Bydd yr ystyriaethau hyn yn helpu i sicrhau, ar sail y dystiolaeth orau sydd ar gael, fod targedau arfaethedig yn gyflawnadwy ac yn fforddiadwy, ond eu bod yn gallu ysgogi'r newidiadau uchelgeisiol sydd eu hangen i ddiogelu'r amgylchedd.

**Cynyddu ymwybyddiaeth o lygredd aer**

**5. Pa ystyriaeth a roesoch i gynnwys rhagor o fanylion ynglŷn â’r camau y byddai disgwyl i Weinidogion Cymru eu cymryd i gyflawni’r ddyletswydd yn adran 8, er enghraifft, paratoi a chyhoeddi ‘cynllun cyflawni’ (y cyfeirir ato yn y Memorandwm Esboniadol)?**

Mae'r Memorandwm Esboniadol yn nodi y byddwn yn cyhoeddi cynllun cyflawni i weithredu'r ddyletswydd hon. Er mwyn egluro ystyr cynllun cyflawni rydym wedi rhoi enghreifftiau o'r math o gamau gweithredu y gallai eu cynnwys. Mae'r camau gweithredu hyn wedi dod o'r adborth i'r ymgynghoriad ar ein Cynllun Aer Glân, yn ogystal â thrafodaethau parhaus â rhanddeiliaid.

Byddwn yn datblygu'r cynllun ar y cyd â rhanddeiliaid i sicrhau ei fod yn effeithiol a bod ein hymdrechion yn canolbwyntio ar y meysydd cywir. Mae'n annhebygol mai Llywodraeth Cymru yn unig a fydd yn gweithredu'r camau yn y cynllun. Rhan allweddol o ddatblygu'r cynllun cyflawni gyda rhanddeiliaid fydd nodi nid un unig yr hyn mae angen inni ei wneud, ond hefyd pwy yw'r partner cyflawni mwyaf effeithiol

Felly, rydym wedi canolbwyntio ar gydbwyso darparu disgrifiad ystyrlon o'r ffordd y bydd y ddyletswydd yn cael ei rhoi ar waith, â'r angen i osgoi nodi ymlaen llaw y camau gweithredu y gallai'r cynllun eu cynnwys. Bydd hyn yn ein galluogi i ddatblygu cwmpas a chynnwys y cynllun ar y cyd â rhanddeiliaid.

**6. Pa drefniadau fydd yn cael eu rhoi ar waith i fonitro cydymffurfiaeth â’r ddyletswydd/effeithiolrwydd y ddyletswydd, a sut mae’r Bil yn darparu ar gyfer hyn?**

Nid yw'r Bil yn cynnwys trefniadau penodol ar gyfer monitro cydymffurfedd nac effeithiolrwydd, achos bod y ddarpariaeth hon wedi cael ei drafftio'n eang o fwriad i osgoi cyfyngu'r ffyrdd y gallwn godi ymwybyddiaeth o lygredd aer.

Yn y dyfodol gallai fod camau newydd ac ychwanegol y gallai Gweinidogion eu cymryd i godi ymwybyddiaeth o lygredd aer, a byddai natur gyffredinol y ddarpariaeth arfaethedig yn cwmpasu'r rhain.

Bydd angen clywed amrediad eang o safbwyntiau a barnau er mwyn gwerthuso'n llawn effeithiolrwydd y ddyletswydd hon, ac nid ydym am gyfyngu ar y broses hon. Felly, nid ydym wedi cynnwys darpariaethau mewn perthynas â monitro cydymffurfedd ac effeithiolrwydd, er mwyn osgoi cyfyngu ar gwmpas y ddyletswydd, ac i sicrhau bod y ddeddfwriaeth yn barod at y dyfodol.

Bydd trefniadau i fonitro a gwerthuso effeithiolrwydd y camau sy'n cael eu cynnwys yn y cynllun cyflawni ar gyfer codi ymwybyddiaeth yn cael eu datblygu ar y cyd â rhanddeiliaid, a'u cynnwys yn y cynllun cyflawni. Os yw'r cynllun cyflawni'n cael ei gynnwys yn

strategaethau ansawdd aer Llywodraeth Cymru yn y dyfodol, byddai'r camau yn ddarostyngedig i'r un craffu, monitro a gwerthuso â'r cynllun ehangach.

**Strategaeth Ansawdd Awr Genedlaethol**

**7. Pa ystyriaeth a roesoch i gynnwys gofyniad ar Weinidogion Cymru i adolygu'r strategaeth ansawdd aer genedlaethol ar adeg benodol (e.e. 12 mis) yn dilyn etholiad Senedd ar wyneb y Bil?**

Fe wnaethom ystyried adolygu'r strategaeth ansawdd genedlaethol ar adeg benodol. Fodd bynnag, sefydlodd Deddf yr Amgylchedd 2021 gyfnod adolygu pum mlynedd, a chytunwyd ar y cyfnod hwn gan y Senedd drwy Gynnig Cydsyniad Deddfwriaethol. Ar hyn o bryd mae'r dyddiad cau ar gyfer adolygu'n digwydd bod tua dwy flynedd ar ôl etholiad diweddaraf y Senedd, sy'n caniatáu ar gyfer datblygu strategaeth ansawdd aer genedlaethol newydd yn dilyn etholiad, os yw Gweinidogion am wneud hynny, wedi'i lywio gan y Rhaglen Lywodraethu, Adroddiad Tueddiadau'r Dyfodol diweddaraf ac ati. Gwnaeth y newid hwn gyflawni un o'n amcanion polisi a amlinellu'r yn y Papur Gwyn ar Fil Aer Glân (Cymru). Felly, nid yw'r Bil fel y mae wedi'i gyflwyno'n ceisio newid yr amserlen statudol bresennol. Mae'n bosibl na fydd pennu dyddiad cau un flwyddyn ar ôl yr etholiad diweddaraf bob amser yn rhoi digon o amser ar gyfer gwneud y gwaith hwn.

Rydym wedi defnyddio'r dull hwn achos bod Deddf yr Amgylchedd 2021 (ac ar gyfer seinweddau, Rheoliadau Sŵn Amgylcheddol (Cymru) 2006) wedi sefydlu cylchoedd adolygu pum mlynedd, gyda dyddiadau cau sydd ar hyn y bryd yn digwydd bod ar adegau rhesymol yng nghylch etholiadau'r Senedd. Fodd bynnag, mae'r Bil yn rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru i newid y cyfnod adolygu hwn drwy reoliadau. Byddai'r pŵer hwn yn cael ei ddefnyddio, er enghraifft, pe bai cylch etholiadau'r Senedd yn newid neu pe na fyddai amseriad yr adolygiad yn gweithio am unrhyw reswm arall.

**8. Pa feini prawf y bydd Gweinidogion Cymru yn eu defnyddio i benderfynu a ddylid dynodi 'awdurdod Cymreig datganoledig' yn 'awdurdod cyhoeddus Cymreig perthnasol' at ddiben cymhwyso'r ddyletswydd o dan adran 11?**

Mae'n bosibl y bydd angen dynodi awdurdod datganoledig i Gymru fel awdurdod perthnasol yng Nghymru os yw (a) yn arfer swyddogaethau cyhoeddus sydd, ym marn Gweinidogion Cymru, yn debygol o effeithio ar ansawdd aer yng Nghymru, a (b) nad oes gofyniad ffurfiol arall ar waith ar gyfer pob rhan o'r sefydliad hwnnw sy'n arfer swyddogaethau o'r fath i ystyried polisi cenedlaethol yn y maes hwn wrth wneud hynny. Byddai'r un dull yn cael ei ddefnyddio ar gyfer seinweddau).

**Rheoli Mwg**

**9. A allwch egluro a allai Gweinidogion Cymru gryfhau'r ddeddfwriaeth bresennol ar reoli mwg yn y modd a amlinellir uchod drwy ddefnyddio pwerau presennol, h.y. heb fod angen deddfwriaeth sylfaenol bellach?**

Mae gan Weinidogion Cymru bwerau o dan adran 19 o Ddeddf Aer Glân 1993 i fynnu bod awdurdodau lleol yn creu parthau rheoli mwg pan fyddant yn credu nad yw'r awdurdod lleol wedi bod yn ddigon cadarn o ran arfer eu pwerau o dan adran 18 o ddeddf Aer Glân 1993, i leihau llygredd aer a nodwyd drwy orchymyn rheoli mwg. Mewn egwyddor, byddai hyn yn

galluogi Gweinidogion Cymru gyfarwyddo awdurdod lleol mewn perthynas ag unrhyw ardal drefol â phoblogaeth ddwys, lle mae llygredd aer yn cael ei achosi gan fwg, fesul achos. Bydd Gweinidogion Cymru yn gweithio gydag awdurdodau lleol i sicrhau bod unrhyw ardaloedd rheoli mwg yn cael eu sefydlu o dan adran 18. Dim ond fel yr opsiwn olaf y byddai pwerau cyfarwyddo'n cael eu defnyddio.

Roedd Deddf Aer Glân 1993, Rheoliadau Ardaloedd Rheoli Mwg (Tanwyddau Awdurdodedig) (Cymru) 2019 a Gorchymyn Ardaloedd Rheoli Mwg (Dosbarthau Esempt ar Leoedd Tân) (Cymru) 2019 yn amlinellu'r deddfwriaeth ar gyfer llosgi mewn ardal rheoli mwg. Mae'r fframwaith presennol ar gyfer niwsans statudol yn dod o dan Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd 1990. Mae rhai mathau, cyfyngedig iawn, o losgi yn dod o dan Ddeddf Aer Glân 1993, hynny yw pan fydd mwg yn cael ei allyrru o simnai adeilad fel tŷ haul.

Pe byddem yn estyn y ddeddfwriaeth mewn perthynas ag ardaloedd rheoli mwg i gynnwys llosgi y tu hwnt i'r hyn sydd eisoes wedi'i gynnwys yn Neddf Aer Glân 1993 a Deddf Diogelu’r Amgylchedd 1990, byddai angen gwneud hynny drwy ddeddfwriaeth sylfaenol.

Mae rhagor o waith ar losgi domestig. sy'n cynnwys llosgi yn yr awyr agored, yn cael ei wneud yn dilyn yr ymgynghoriad ar leihau allyriadau o losgi tanwyddau solet at ddibenion domestig. Pan fydd cynigion yn cael eu datblygu i fynd i'r afael â llygredd a achosir gan losgi yn yr awyr agored ym mhob man, byddwn yn ystyried i ba raddau y gallwn ddefnyddio swyddogaethau deddfwriaeth presennol, yn hytrach na datblygu deddfwriaeth sylfaenol.

Mae'r Bil yn cyflwyno gofyniad i awdurdodau lleol ystyried unrhyw ganllawiau a gyhoeddir gan Weinidogion Cymru mewn perthynas ag ardaloedd rheoli mwg. Mae'r canllawiau'n disodli ein cynnig gwreiddiol ar gyfer 'gofyniad i adolygu' a byddant yn cael eu datblygu ar y cyd â rhanddeiliaid ac yn cael eu hadolygu a'u diweddaru o bryd i'w gilydd.

**Codi Tâl ar Ddefnyddwyr Cefnffyrdd**

**10. A allwch gadarnhau, pan wneir cynllun codi tâl ar ddefnyddwyr cefnffyrdd yn rhinwedd adran 167(3) at ddiben lleihau neu gyfyngu ar lygredd aer, y gellir cymhwyso cyfran Gweinidogion Cymru o’r enillion net o’r cynllun at unrhyw ddiben?**

Y bwriad o'r cychwyn cyntaf fu mynd i'r afael â'r cyfyngiad presennol sy'n ei gwneud yn ofynnol i enillion net gael eu defnyddio ar gyfer polisïau a chynigion trafnidiaeth yn unig. Cafodd y cynnig hwn ei gynnwys yn ein Papur Gwyn ar Fil Aer Glân (Cymru).

Byddai'r gofyniad i ddefnyddio enillion net ar gyfer polisïau trafnidiaeth yn unig yn cyfyngu ar y camau pellach y gallem eu cymryd i fynd i'r afael ag ansawdd aer gwael. Er enghraifft, o dan y trefniadau presennol, mae'n bosibl na fyddwn yn gallu cefnogi rhai mathau o weithgareddau Rheoli Ansawdd Aer yn Lleol, neu estyn trefniadau monitro ansawdd aer, neu fynd i'r afael ag allyriadau o losgi diwydiannol neu losgi domestig.

Mae bwysig ein bod yn gallu dangos cysylltiad clir rhwng y ffioedd a godir am wella ansawdd aer, a'r mesurau a fyddai'n cael eu hariannu gan y ffioedd hyn i wella ansawdd aer ymhellach.

Ni fydd yr enillion net sy'n dod o gynlluniau i leihau neu gyfyngu ar lygredd aer yn agos i ffyrdd yn cael eu neilltuo. Bydd hyn yn rhoi rhagor o ryddid i Weinidogion ddefnyddio'r incwm yn y ffordd fwyaf effeithiol posibl i gyflawni ein huchelgeisiau polisi.

I adlewyrchu'r ffocws ar wella ansawdd aer, bydd angen i Weinidogion asesu'r gwariant arfaethedig yn erbyn yr effaith ddisgwyliedig ar ansawdd aer (os o gwbl) ar ansawdd aer.

Bydd hyn yn sicrhau bod ansawdd aer yn ganolog i unrhyw benderfyniadau a wneir fel rhan o'r broses hon.

**11. A allwch roi'r wybodaeth ddiweddaraf am ddatblygu fframwaith ar gyfer Parthau Aer Glân?**

Yn 2018 gwnaethom gyhoeddi Fframwaith Parthau Aer Glân drafft ar gyfer Cymru er mwyn ymgynghori yn ei gylch. Bwriad y fframwaith oedd arwain camau gweithredu awdurdodau lleol i wella ansawdd aer a lleihau allyriadau sy'n peri llygredd. Roedd y fframwaith drafft yn disgrifio ystyriaethau allweddol, gan gynnwys datblygu tystiolaeth i gefnogi cyflwyno cynllun codi tâl.

Mae datblygu ein Fframwaith Parthau Aer Glân wedi'i gysylltu yn agos at ein dull ehangach ar gyfer rheoli gadw. Mae hyn yn cynnwys dulliau amgen fel ailddyrannu lle ar y ffyrdd a chodi tâl ar leoedd parcio yn y gweithle, yn ogystal â chynlluniau codi tâl ar ddefnyddwyr ffyrdd. Mae rheoli galw yn gallu helpu i annog pobl i gefnu ar ddefnyddio ceir preifat. Mae Llwybr Newydd, ein Strategaeth Drafnidiaeth i Gymru, yn cynnwys ymrwymiad i ddatblygu fframwaith cenedlaethol ar gyfer codi tâl ar ddefnyddwyr ffyrdd. Mae hyn yn cael ei adlewyrchu yn yr ymrwymiad yn ein Cynllun Cyflawni Cenedlaethol ar gyfer Drafnidiaeth i ddatblygu strategaeth i godi tâl teg ar ddefnyddwyr ffyrdd.

Bydd rhagor o waith yn cael ei wneud i ddatblygu fframwaith ar gyfer codi tâl teg a chyfartal ar ddefnyddwyr ffyrdd, gan gynnwys sut y gall awdurdodau lleol gael benthyciadau ar sail y ffrydiau refeniw hyn yn y dyfodol i ariannu gwelliannau i drafnidiaeth; ac ystyried opsiynau eraill fel codi tâl ar leoedd parcio yn y gweithle ac ailddyrannu lle ar y ffyrdd.

Bydd y fframwaith/strategaeth ehangach hon yn cynnwys cyngor ar ddatblygu a chyflwyno Parthau Aer Glân/Parthau Allyriadau Isel ar ffyrdd awdurdodau lleol, gan adeiladau ar ein Fframwaith Parthau Aer Glân drafft ar gyfer Cymru. Bydd y ddogfen hon hefyd yn disgrifio o dan ba amgylchiadau y gellir cyflwyno Parthau Aer Glân ar ein rhwydwaith cefnffyrdd, gan ddefnyddio ein pwerau newydd yn y Bil.

Bydd y gwaith hwn yn cael ei drefnu maes o law i sicrhau ein bod yn gallu gwneud hyn yn unol ag amserlenni cyhoeddedig y Cynllun Cyflawni Cenedlaethol ar gyfer Trafnidiaeth.

**Gwrthsegura**

**12. Pam ydych chi o'r farn bod angen y pwerau i ragnodi ystod ariannol, o ystyried bod pŵer i bennu swm cosb benodedig eisoes yn bodoli? Pa ystyriaeth y mae Llywodraeth Cymru wedi'i rhoi i gynyddu'r tâl presennol yn unig?**

Mae'r gosb ariannol bresennol o £20 yn rhy isel i atal pobl rhag gadael i injan eu cerbyd segura, ac nid yw'r taliadau'n ei gwneud yn hyfyw i awdurdodau lleol roi blaenoriaeth i gamau gorfodi.

Wrth reswm, rhaid i gosbau fod yn gymesur. Fodd bynnag, ar hyn o bryd nid oes gan awdurdodau lleol unrhyw hyblygrwydd o ran lefel y gosb ariannol maent yn ei rhoi. Felly rydym yn gwneud darpariaeth i awdurdodau lleol allu dewis lefel y gosb ariannol i'w rhoi ym mhob achos, o ystod a fydd yn cael ei phennu mewn rheoliadau.

Bydd cyflwyno pŵer i bennu ystod o gosbau ariannu mewn rheoliadau yn hwyluso gwaith gorfodi awdurdodau lleol neu eu swyddogion awdurdodedig. Mae'n rhoi elfen o ddisgresiwn o ran lefel y gosb benodedig y gellid ei rhoi am adael i injan segura.

Mae hefyd yn caniatáu hyblygrwydd o ran lefel y gosb i adlewyrchu lleoliad y segura. Er enghraifft, gellid rhoi cosb ar ben uchaf yr ystod i rywun am adael i injan segura y tu allan i ysgol. Nid oes modd gwneud hyn o dan y gyfundrefn bresennol, lle nad oes gan Weinidogion Cymru ond y pŵer i osod swm sengl ar gyfer cosb benodedig.

Gwnaethom hefyd hystyried cynyddu'r gosb bresennol. Mae gan Weinidogion Cymru y pŵer i wneud hynny drwy wneud diwygiad i'r rheoliadau presennol. Fodd bynnag, mae'r dull rydym wedi'i ddefnyddio yn y Bil yn darparu rhagor o hyblygrwydd o lawer ar gyfer awdurdodau lleol, ac yn galluogi camau gorfodi mwy effeithiol.

**13. Pa asesiad sydd wedi'i wneud o effaith y cynigion ynghylch codi tâl ar ddefnyddwyr cefnffyrdd a'r cynigion i atal segura ar bobl o grwpiau incwm is?**

O ran gwrthsegura, mae'r rheoliadau presennol yn amlinellu sut dylai'r system orfodi bresennol weithio. Bydd swyddog gorfodi awdurdod lleol yn gofyn i yrrwr atal ei injan rhag segura, ac os yw'n gwneud hynny ni fydd dirwy yn cael ei rhoi.

Dim ond os bydd y gyrrwr yn gwrthod atal ei injan rhag segura ar ôl i'r swyddog ofyn iddo wneud hynny y bydd dirwy yn cael ei rhoi. Bydd ein canllawiau i awdurdodau lleol yn nodi'r angen i ystyried ffactorau economaidd-gymdeithasol wrth lunio cosbau.

Rydym yn ymwybodol bod rhaid i lefel y gosb benodedig fod yn briodol ar gyfer amgylchiadau lleol. Os yw cosbau yn rhy uchel ar gyfer amodau lleol, er enghraifft, mewn ardal o amddifadedd lluosog, bydd llawer o achosion o fethu talu, a byddai hyn yn tanseilio'r gyfundrefn. Hefyd, gallai methu talu arwain ag gosbau uwch byth ar gyfer y rhai nad ydynt wedi talu, a gallai hyn arwain at ragor o ddyled ar gyfer pobl sydd eisoes yn byw mewn tlodi. Bydd ein canllawiau'n ystyried y mater sensitif hwn yn llawn.

O ran codi tâl ar ddefnyddwyr cefnffyrdd sy'n gyrru cerbydau nad ydynt yn cydymffurfio (sy'n creu'r llygredd mwyaf), byddai angen ystyried yr effaith ar grwpiau incwm is wrth ddatblygu cynigion penodol ar gyfer y cynllun.

Bydd angen cynnal Asesiad o'r Effaith Economaidd i werthuso'r effeithiau posibl a allai godi o ganlyniad i gynlluniau codi tâl, ac i helpu i bennu mesurau lliniaru i gyfyngu ar ganlyniadau negyddol.Dylai'r asesiad ystyried effaith lawn bosibl Parth Aer Glân arfaethedig, a dylid pwyso a mesur yn ofalus y costau a'r manteision.

Dylai unrhyw gamau i fynd i'r afael a phroblemau ansawdd aer fod yn gymesur â maint y broblem, a bod yn unol â gofynion llesiant cenedlaethau'r dyfodol.

Byddai ymarfer ymgynghori'n cael ei gynnal cyn cyflwyno unrhyw gynlluniau, pan fyddai digon o gyfleoedd i sicrhau bod effeithiau'r cynllun ar y rhai mewn grwpiau incwm is wedi cael eu hasesu'n llawn.

**Seinweddau**

**14. Sut mae Llywodraeth Cymru yn diffinio 'seinweddau'?**

Y diffiniad ffurfiol o 'seinwedd' ym Mholisi Cynllunio Cymru Rhifyn 11 (troednodyn 142)[1], Cynllun Gweithredu Sŵn a Seinwedd 2018–2023 (troednodyn 10)[2] a'r drafft ymgynghori diweddar o TAN 11 (Rhestr Termau)[3], yn unol â'r diffiniad Prydeinig a'r diffiniad rhyngwladol safonol[4] yw: yr amgylchedd acwstig (h.y. sain) fel y mae'n cael ei ganfod neu ei brofi a/neu ei ddeall gan berson neu bobl mewn cyd-destun penodol. Rydym hefyd wedi diffinio 'seinwedd priodol' i olygu yr amgylchedd sain cywir ar yr adeg gywir ac yn y lle cywir. Mae seinweddau priodol ac aer glân yn ddau o'r Canlyniadau Cenedlaethol Creu Lleoedd Cynaliadwy a sefydlwyd ym Mholisi Cynllunio Cymru.

**15. Pa ystyriaeth a roesoch i gynnwys diffiniad o 'seinweddau' yn y Bil?**

Cafodd hyn ei ystyried, ond rydym yn gwybod bod safonau Prydeinig a safonau rhyngwladol yn cael eu hadolygu a'u diweddaru o bryd i'w gilydd. Mae'r diffiniad o seinwedd sydd wedi'i gymeradwyo gan y gymuned acwsteg wedi cael ei sefydlu ers llai na degawd. Pe bai'n cael ei fireinio yn ystod y blynyddoedd nesaf, er enghraifft, i'w ehangu y tu hwnt i glyw pobl i gynnwys y ffordd mae rhai anifeiliaid yn clywed sain mewn cyd-destun penodol, mae'n bosibl y bydd Llywodraeth Cymru am ddefnyddio'r diffiniad diweddaraf yn ei pholisïau. Byddai gwneud newid o'r fath mewn dogfennau polisi cenedlaethol fel Polisi Cynllunio Cymru a'r Cynllun Sŵn a Seinwedd, sydd hefyd yn cael eu hadolygu a'u diweddaru o bryd i'w gilydd, yn weddol syml. Ni fyddai'n syml diwygio diffiniad wedi'i ymgorffori mewn deddfwriaeth sylfaenol.

**16. Pa ystyriaeth a roesoch i sefydlu Panel Cynghori ar Seinweddau i roi cyngor arbenigol i Weinidogion Cymru (cyffelyb i'r Panel Cynghori ar Aer Glân)?**

Mae Llywodraeth Cymru yn derbyn cyngor a chymorth oddi wrth lawer o ymarferwyr sŵn a seinwedd gwahanol, sydd gyda'i gilydd yn ymdrin ag amrediad eang o feysydd arbenigol. Mae'r meysydd arbenigol sydd eu hangen o bryd i'w gilydd yn cynnwys modelu cyfrifiadurol ar raddfa fawr a thrin data ar gyfer mapio sŵn yn genedlaethol, adolygiadau systematig o ymchwil academaidd i grynhoi tystiolaeth mewn perthynas ag iechyd a llesiant, ymarferoldeb gweithredu pwerau i ymchwilio i gwynion am sŵn a chymryd camau gorfodi, cyfranogiad y cyhoedd mewn asesiadau ac ymyriadau seinwedd ar lefel y gymuned leol, peirianneg rheoli sŵn, a llawer o feysydd gwybodaeth arbenigol eraill.

Rydym yn asesu'r arbenigwyr hyn mewn nifer o ffyrdd, gan gynnwys drwy fframwaith caffael presennol y Llywodraeth, ein rhwydwaith sefydledig iawn o reoleiddwyr sŵn yng Nghymru, ac rydym yn aelod o bwyllgorau sŵn y Sefydliad Safonau Prydeinig, y Sefydliad Acwsteg (IOA) a Rhwydwaith Acwsteg y DU (UKAN+), ac yn cyfrannu at waith y sefydliadau hyn.

Mae'r trefniadau hyn wedi gweithio inni hyd yn hyn. Rydym yn fodlon ystyried unrhyw achos a wneir dros sefydlu panel cynghori mwy ffurfiol ar seinweddau, yn debyg i'r Panel Cynghori ar Aer Glân. Fodd bynnag, byddai angen aelodaeth eang a hyblyg iawn ar bwyllgor o'r fath er mwyn iddo ymdrin â'r holl faterion a'r dystiolaeth sydd ei hangen o fewn cwmpas strategaeth seinweddau genedlaethol. Byddai angen hefyd ein hargyhoeddi y byddai'r gwerth mae'n ei ychwanegu at y trefniadau presennol yn fwy na'r costau gweinyddol.

**17. Sut y bydd Gweinidogion Cymru yn monitro effeithiolrwydd y strategaeth seinweddau genedlaethol o ran lleihau lefelau llygredd sŵn?**

---

[1] Polisi Cynllunio Cymru | LLYW.CYMRU
[2] Cynllun Gweithredu Sŵn a Seinwedd 2018 – 2023 | LLYW.CYMRU
[3] Canllawiau cynllunio diwygiedig mewn perthynas ag ansawdd aer, sŵn a seinweddau | LLYW.CYMRU
[4] BS ISO 12913-1 - Acoustics. Soundscape. Definition and conceptual framework (bsigroup.com)

Rhaid i'r strategaeth seinweddau genedlaethol gynnwys polisïau Gweinidogion Cymru mewn perthynas ag asesu a rheoli seinweddau yng Nghymru, a'n polisïau ar gyfer asesu a lleihau lefelau o lygredd sain.

Mae'n anodd mesur yn gywir gysylltiad y boblogaeth â llygredd sŵn ar lefel genedlaethol. Mae modd mesur rhai mathau o sain yn yr awyr agor, fel sain o drafnidiaeth, ar lefel genedlaethol drwy gyfrifiaduron. Fodd bynnag, mae'r feddalwedd a'r dulliau cyfrifo'n esblygu'r barhaus. Nid yw 'mapiau sŵn strategol' wedi'u cynhyrchu yn y ffordd hon yn dweud wrthym pa mor dda mae gwahanol adeiladau'n diogelu'r bobl ynddynt, sy'n dibynnu ar gynllun yr ystafelloedd a dulliau adeiladu. Mae hyn yn golygu, hyd yn oed ar gyfer sŵn o'r ffyrdd a'r rheilffyrdd, nid ydym wedi llwyddo i fesur newidiadau gwirioneddol i gysylltiad y boblogaeth â sŵn dros amser. Ar gyfer mathau eraill o sŵn, fel sŵn o gymdogion, nid yw awdurdodau cyhoeddus yn ymwybodol o’r rhain nes bod rhywun yn gwneud cwyn swyddogol, ac nid yw cwynion o'r fath yn cael eu cofnodi a'u rhannu mewn modd cyson. Yn ôl yr ymatebion i'r cwestiynau am sŵn yn ein Harolwg Cenedlaethol yn 2017–18 a 2021–22, roedd chwarter y bobl yng Nghymru yn dioddef effeithiau sŵn o'r tu allan i'w cartrefi yn rheolaidd. Mae llawer o'r sŵn hwn yn dod o gymdogion, ond nid yw llawer o'r bobl hyn yn gwneud cwyn swyddogol am sŵn i'w hawdurdod lleol.

Ein mesur mwyaf dibynadwy o fynychder niwsans sŵn yng Nghymru yw'r Arolwg Cenedlaethol. Rydym yn gobeithio ailofyn y cwestiynau am sŵn a ofynnwyd yn 2017–18 a 2021–22 o bryd i'w gilydd. Rydym yn parhau i adrodd canlyniadau pennawd trawiadol, fel y gydberthynas amlwg rhwng niwsans sŵn rheolaidd ac ardaloedd difreintiedig, yn ein Cynllun Sŵn a Seinwedd, sef ein strategaeth seinweddau genedlaethol. Wrth i ragor o bobl fyw yn agosach at ei gilydd yn ein trefi a'n dinasoedd, ar y cyfan nid ydym yn credu ei bod yn realistig gweld gwelliannau mawr na chyflym yn yr ymatebion i'r cwestiynau a ofynnir. Os bydd y Llywodraeth yn gallu gwella'r sefyllfa bresennol ac atal problemau newydd rhag codi, byddwn yn ceisio gwneud hynny, gan gynnwys drwy'r polisïau sydd yn y Cynllun.

Yn yr hinsawdd ariannol bresennol, y prif nod yng Nghynllun Sŵn a Seinwedd 2023–28 y byddai'n realistig ei gyflawni yw sicrhau bod sŵn a seinweddau'n cael eu hystyried yn briodol gan awdurdodau cyhoeddus pan fyddant yn gwneud penderfyniadau. Mae hyn yn gyson â'r ffyrdd o weithio yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, i osgoi creu problemau sŵn newydd, ac i fanteisio i'r eithaf ar unrhyw gyfleoedd i leihau lefelau sŵn presennol a hyrwyddo seinweddau iachach. Rydym yn bwriadu ymgynghori ar ein strategaeth seinweddau genedlaethol ddiwygiedig yn yr haf hwn.

Rhaid i unrhyw gamau a gymerir o dan y strategaeth ymateb i ddigwyddiadau a datblygiadau polisi mewn meysydd eraill. Nid oedd modd i'n Cynllun 2018 ragweld y cyfyngiadau symud yn 2020 a'r niferoedd uchel o bobl yn gweithio gartref. Nid oeddem yn gwybod ar y pryd chwaith beth fyddai'r sefyllfa bum mlynedd yn ddiweddarach mewn perthynas â'n Bil Aer Glân, tân gwyllt a thechnolegau newydd fel pympiau gwres ffynhonnell aer. Ond mae'r egwyddorion arweiniol cyffredinol a'r ffyrdd o weithio yn y Cynllun wedi bod yn ddilys ac yn berthnasol i'r holl bethau hynny, a byddant yn parhau i fod yn berthnasol i ba faterion bynnag sy'n codi sy'n effeithio ar seinweddau yng Nghymru dros y pum mlynedd nesaf.

Dylid barnu llwyddiant y Cynllun Sŵn a Seinwedd newydd ar sail pa mor dda mae Llywodraeth Cymru a chyrff cyhoeddus eraill yn cynnwys effeithiau seinweddau sy'n newid yn eu prosesau ar gyfer gwneud penderfyniadau dros y pum mlynedd nesaf. Mae hyn yn cynnwys penderfyniadau cynllunio, polisïau trafnidiaeth, mentrau datgarboneiddio ac ymyriadau ansawdd aer. Bydd rhoi'r cynllun ar sail gyfreithiol fwy cadarn fel y strategaeth seinweddau genedlaethol yn codi ei broffil a, gobeithio, yn codi ei effeithiolrwydd wrth arwain penderfyniadau ar sail gwybodaeth.

**18. Pa ystyriaeth a roesoch i gynnwys gofyniad ar Weinidogion Cymru i adrodd ar gynnydd tuag at weithredu’r strategaeth seinweddau genedlaethol?  Byddwn**

Byddem yn disgwyl i'r ymgynghoriad cyhoeddus ar yr adolygiad pum mlynedd a'r fersiwn ddiweddaraf o'r strategaeth seinweddau genedlaethol gynnwys adroddiad ar ba mor effeithiol oedd y gwaith o weithredu'r fersiwn flaenorol o'r strategaeth. Bydd angen hyn i nodi unrhyw ddiwygiadau sydd eu hangen.

Rwy'n gobeithio y bydd yr ymatebion hyn i'r cwestiynau a ofynnwyd gennych yn eich llythyr yn ddefnyddiol.

Yn gywir



**Julie James AS/MS**
Y Gweinidog Newid Hinsawdd
Minister for Climate Change